**Cynulliad Cenedlaethol Cymru | National Assembly for Wales**
**Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg | Children, Young People and Education Committee**
**Ymchwiliad i Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg | Inquiry into Welsh in Education Strategic Plans**

**CYPE(4)-19-20 - Papur 3**

**Ymateb gan : ADEW / WLGA**
**Response from : ADEW / WLGA**

# CYFWLYNIAD

Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn cynrychioli 22 awdurdod lleol Cymru. Mae'r tri awdurdod parc cenedlaethol, y tri awdurdod tân ac achub, a phedwar awdurdod yr heddlu yn aelodau cysylltiol.

Ei nod yw cynnig cynrychiolaeth i awdurdodau lleol o fewn fframwaith polisi sydd ar y gweill sy'n diwallu blaenoriaethau allweddol ein haelodau ac yn darparu amrediad eang o wasanaethau sy'n ychwanegu gwerth at lywodraeth leol Cymru a'r cymunedau mae'n eu gwasanaethu.

Mae'r CLlLC yn croesawu'r cyfle i ymateb i ymchwiliad Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg.

Wrth ddrafftio'r ymateb mae'r CLlLC wedi gweithio mewn partneriaeth gyda Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru ac yn benodol Prif Swyddog Addysg Sir Gaerfyrddin sy'n cadeirio'r Grŵp Cynhwysiant.

**Cwestiynau'r ymgynghoriad**

| **Cwestiwn 1** - Yn eich barn chi, a yw Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn cyfrannu at y deilliannau a'r targedau a nodir yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Llywodraeth Cymru? |
|---|
| Mae pob Awdurdod Lleol (ALl) yn ymrwymedig i ddatblygu'r Gymraeg ac mae yna ewyllys da tuag at yr iaith ar draws Awdurdodau Cymru.<br><br>Mae *Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Llywodraeth Cymru* yn ddogfen gynhwysfawr a phwrpasol sy'n nodi'n glir gweledigaeth LlC a'i gysylltu'n gadarn gydag *Iaith Pawb* (2003). Er hynny mae'n ddogfen sydd wedi dyddio gan y nodir pethau sydd bellach yn hanes e.e. *Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion* ac mae datblygiadau arwyddocaol eraill wedi digwydd ers ei chyhoeddi. |

Dylai **Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg** (CSyGmA )Awdurdodau Lleol fod yn ddogfennau dylanwadol a phwerus sy'n cyflawni'r deilliannau a'r targedau a nodir gan LlC. Mae'r canllawiau a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru yn cadw ffocws Awdurdodau Lleol ar y nodau a'r amcanion strategol. Mae'r broses cymeradwyo Cynlluniau yn drwyadl ac yn heriol.

- Mae'r templed ar gyfer creu'r CSyGmA yn hir ac yn gymhleth e.e. Mae cynllun Sir Gâr yn 66 o dudalennau ac felly mae colli ffocws ar y prif flaenoriaethau'n bosibl. Mae'r creu templed/cwblhau CSyGmA yn gymhleth iawn oherwydd natur ieithyddol a strwythurau addysg gwahanol ar draws Siroedd felly a yw un templed/fformat yn addas? Oni fyddai'n fwy addas I ALl ddefnyddio'r trefniadau cynllunio busnes lleol sydd eisoes yn bodoli ac yn cael ei gefnogi gan strwythurau corfforaethol y cynghorau?
- Byddai gwell trefn o ran trafod a rhannu arfer ar lefel strategol yn sicrhau cysondeb ar draws Cymru o ran cynnwys y cynlluniau a chysondeb o ran disgwyliadau- a yw LlC yn disgwyl mwy wrth rai ALl ac yn mynnu targedau uwch? Byddai hyn hefyd yn hwyluso perthynas agosach rhwng CSyGmA Awdurdodau Lleol gwahanol/Consortia.

  Bydd ymateb i'r **Safonau iaith** a gyflwynwyd i bob Cyngor Sir hân y Comisiynydd Iaith yn gymorth gyda'r agenda yma hefyd.

Os ydych o'r farn nad yw Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn cyfrannu ddigon, sut y gellir datrys hyn?

Mae angen i bob CSyGmA adlewyrchu'r ***Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Llywodraeth Cymru*** ac i fod yn uchelgeisiol o ran addysg Gymraeg- mae rôl gan bob ALl.

Dylai fod arweiniad cliriach o ran sut mae **Fforwm y CSyGmA** yn cael eu datblygu gyda'r cyfle wedyn i ddehongli'n lleol.

Mae heriau/anawsterau cyllido mewn ALl yn arwain at her i weithredu targedau'r CSyGmA ac felly collir y ffocws ar ofynion Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Llywodraeth Cymru. Mae toriadau wedi body n yr RSG dros gyfnod ac felly mae'n rhaid I ALl flaenoriaethu gwariant. **DYLID SICRHAU CYLLID PWRPASOL AC YSTYRIED ARIANNU SWYDDOG ARWEINIOL AR GYFER Y CSyGMa YMHOB CONSORTIA/ALl- esiampl Sir Gaerfyrddin.**

Dydy goblygiadau'r strategaeth ddim yn cymryd i ystyriaeth yr ystod o fodelau darparu o ran addysg Gymraeg yng Nghymru h.y. does dim un ffordd i siwtio pob awdurdod lleol na chonsortia chwaith. **RHYDDID I DDATBLYGU YMATEB LLEOL/TREFN ALl O WEITHREDU/CYFLAWNI NODAU LlC.**

| **Cwestiwn 2 -** Yn eich barn chi, a yw Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn sicrhau'r newidiadau angenrheidiol mewn awdurdodau lleol, neu a allant wneud hynny (er enghraifft, sicrhau eu bod yn darparu ar gyfer unrhyw gynnydd yn y galw am addysg Gymraeg)? |
|---|
| Mae her gan Awdurdodau Lleol o ran blaenoriaethu a chyllido'r holl ddatblygiadau sy'n angenrheidiol. Ar hyn o bryd mae ffocws amlwg ar godi safonau, gwella dysgu ac addysgu, datblygu arweinyddiaeth, paratoi ar gyfer newid yn neddfwriaeth Addysg Arbennig a gweithio ar lefel Consortia.<br><br>Mae datblygu'r Gymraeg yn amlwg ac yn uchel ar agenda Awdurdodau Lleol ond oherwydd sefyllfa leol mae'n is ar y rhestr blaenoriaethau mewn rhai ardaloedd.<br><br>Yr her bennaf sy'n wynebu rhai siroedd yw sut orau i ateb y galw am addysg cyfrwng Cymraeg. Mae gwaith mesur y galw yn tynnu sylw rhieni at fuddion dwyieithrwydd ac yn gorfodi rhai siroedd i ystyried y galw a gweithredu. Serch hynny, nid yw'r broses gyfreithlon yn hwyluso cynyddu'r ddarpariaeth yn arbennig os oes angen gwneud newid statudol i gymeriad Ysgol.<br><br>Mae'r CSyGmA yn mynd peth ffordd er mwyn sicrhau newidiadau o ran darparu ar gyfer cynnydd yn y galw am addysg Gymraeg. Er hynny byddai'n fanteisiol i gael trefn 'Mesur y Galw'/adnodd oddi wrth LlC i fynd i'r afael â'r her yma. ***A oes arfer dda yn bodoli y gellir ei rannu?***<br><br>Ar lefel genedlaethol byddai'n fanteisiol i ddatblygu pecyn o ddeunyddiau sy'n marchnata buddion addysg ddwyieithrwydd y gellir eu haddasu i ymateb i angen lleol- ar hyn o bryd mae ALl yn gweithredu ar eu pennau eu hun. Byddai taflen i athrawon i gynorthwyo trafodaeth gyda rhieni am addysg ddwyieithog yn ddefnyddiol a phamffledi gyda'r prif negeseuon i rieni. |
| Os ydych o'r farn nad yw Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn sicrhau newidiadau, neu na allant wneud hynny, sut y gellir datrys hyn? |
| Mae CSyGmA yn cyfeirio at symud ysgolion ar hyd y continwwm iaith. Mae'r drefn o orfod cau ac ailagor ysgolion er mwyn newid eu statws iaith ar hyd y continwwm yn llyffethair. Mae hyn yn ofynnol ar gyfer newid statws iaith dosbarth hefyd.<br><br>Er i LlC gymeradwyo CSyGmA Awdurdodau nid yw deddfwriaeth/canghennau eraill o LlC yn hwyluso'n gwaith e.e. i newid cymeriad/natur ieithyddol Ysgol mae proses hir a chymhleth o ymgynghori ac ati.<br><br>Mae angen I LlC a/neu ESTYN i ddatblygu trefn o rannu arfer sy'n effeithiol ac sy'n llwyddo. O edrych ar Adroddiadau Blynyddol Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg LlC rhoir sylw i'r hyn mae Llywodraeth Cymru wedi ei wneud ond ni nodir astudiaethau achos sy'n cofnodi arfer dda/effeithiol o fewn ALl. |

| **Cwestiwn 3 -** Beth yw eich barn ar y trefniadau ar gyfer pennu targedau; monitro; adolygu; cyflwyno adroddiadau; cymeradwyo a chydymffurfio â gofynion Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (a rôl awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru yn y cyswllt hwn)? |
|---|
| Mae'r trefniadau yn gyffredinol yn addas ac yn bwrpasol. Mae'r strwythur monitro/ adrodd yn sicrhau bod y Cynlluniau'n gyfoes a phwrpasol ac yn annog ALl i gadw sylw parhaus arnynt. Er gellir gweld hyn fel dyblygu gwaith gan fod **Fforwm CSyGmA** ar gael i wneud y gwaith yma yn lleol.<br><br>Mewn siroedd lle mae rôl Ysgolion Cymraeg ac Ysgolion Saesneg yn glir mae'r drefn yn addas ond mae'r trefniadau ar gyfer pennu targedau yn creu problemau yn y siroedd hynny lle nad oes ysgolion yn darparu naill ai yn y Gymraeg neu yn y Saesneg yn unig- hynny yw ysgolion dwy ffrwd/dwyieithog.<br><br>Yn ogystal mae llunio targedau trosglwyddo yn haws mewn rhai awdurdodau e.e. llunio targed ar gyfer dilyniant yn haws mewn sefyllfaoedd ble mae teuluoedd yn penderfynu bod y plant yn gychwyn ar daith addysg Gymraeg yn dair ac yn para hyd at ddiwedd cyfnod ysgol. Mae'n fwy cymhleth yw yn y siroedd hynny ble mae amrywiaeth o ddarpariaeth addysg ieithyddol yn y sector uwchradd.<br><br>Dylai'r monitor/adrodd fod yn gryno ac yn ddefnyddiol ac wedi ei ffocysu ar y prif nodau a dylai fod yn rhesymol. |
| **Cwestiwn 4 -** Yn eich barn chi, a yw Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn amlygu rhyngweithio effeithiol rhwng strategaeth addysg Gymraeg Llywodraeth Cymru a deddfwriaeth a pholisïau perthnasol eraill*? (*er enghraifft, polisi cludiant ysgolion; rhaglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain; y datganiad polisi - Iaith fyw:iaith byw; Dechrau'n Deg; polisi cynllunio) |
| Mae gweithio o fewn rheoliadau ac ymateb i ofynion gwahanol adrannau LlC yn heriol ar adegau. Nid yw'n amlwg fod pob adran yn rhoi'r un sylw/pwysigrwydd i'r Gymraeg wrth gyfathrebu/datblygu polisi. Gellir cyflwyno'r un feirniadaeth i adrannau Cynghorau Sir.<br><br>Byddai'n dda o beth i bob adran gydweithio er mwyn sicrhau dilyniant ieithyddol llwyddiannus a rhoi cefnogaeth i swyddogion ALl sydd a'r cyfrifoldeb am weithredu ar argymhellion y CSyGmA.<br><br>Mae argymhellion Adroddiad Donaldson **DYFODOL LLWYDDIANNUS** yn galonogol a byddai eu gweithredu yn cryfhau sefyllfa'r Gymraeg mewn Addysg, ond, bydd yn rhaid sicrhau fod yr argymhellion yn cael eu gweithredu a'u gwireddu.<br><br>Byddai'n ddefnyddiol cael cefnogaeth swyddogion LlC pan mae rhieni yn herio datblygiadau a phenderfyniadau a wneir gan ALl sy'n deillio o'r CSyGmA. Yn fwy aml na pheidio mae'r cyngor a roir yn niweidio'r broses ac yn arafu/gorfodi'r ALl I ddod a'r newid i ben. |
| Os ydych o'r farn bod problemau yn y maes hwn, sut y gellir eu datrys? |

Byddai'n fanteisiol i arweinwyr Llywodraeth Cymru gymryd pob cyfle i ddatgan yn glir ac yn gyhoeddus ymrwymiad i'r weledigaeth- ***Cael system addysg a hyfforddiant sy'n ymateb mewn ffordd wedi'i chynllunio i'r galw cynyddol am addysg cyfrwng Cymraeg, sy'n cyrraedd ein cymunedau amrywiol ac yn eu hadlewyrchu ac sy'n sicrhau cynnydd yn nifer y bobl o bob oedran a chefndir sy'n rhugl yn y Gymraeg ac sy'n gallu defnyddio'r iaith gyda'u teuluoedd, yn eu cymunedau ac yn y gweithle.***

Buddsoddiad addas i gyflogi swyddogion i arwain/cefnogi a chyllid i baratoi deunyddiau i gefnogi'r gwaith.

Byddai'n fanteisiol sicrhau amser i gyd gordio'n lleol ac yn genedlaethol.

Mae prif grant hyfforddiant yn cael ei ddosbarthu i glystyrau o ysgolion erbyn hyn, felly rhaid i hyfforddiant Cymraeg gystadlu gyda blaenoriaethau eraill am sylw.

**Cwestiwn 5 -** Yn eich barn chi, a yw canlyniadau'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn sicrhau canlyniadau teg i bob disgybl, gan gynnwys er enghraifft, disgyblion cynradd/uwchradd; plant o gartrefi incwm isel?

Ar bapur mae'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn ymrwymo i sicrhau canlyniadau teg i bob disgybl. Serch hynny mae yna heriau-

- Sicrhau darpariaeth ieithyddol safonol i gynnal pob disgybl yn enwedig yn y sector anghenion arbennig.
- Sicrhau gweithlu gyda'r sgiliau i ddarparu'n ddwyieithog.
- Cydlynu darpariaeth addysg gyda mentrau eraill- Cymraeg I Oedolion, datblygiadau cymunedol.

Yn aml nid yw staff Ysgol (Penaethiaid/athrawon) yn gallu egluro manteision dwyieithrwydd i rieni.

Os ydych o'r farn nad yw canlyniadau'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn sicrhau canlyniadau teg, sut y gellir datrys hyn?

- Buddsoddiad yn y gweithlu gyda'r nod o ddatblygu ymarferwyr dwyieithog effeithiol ar gyfer pob Ysgol. Yr unig ffordd i ddatblygu'r Gymraeg fel Ail Iaith/darparu ar gyfer ADY drwy'r Gymraeg yn effeithiol yw cael cyflenwad o staff cymwys.
- Her cyflogi staff cefnogol gyda sgiliau dwyieithrwydd addas.
- Cydlynu gwasanaethau yn fwy effeithiol gan sicrhau fod pob gwasanaeth/ asiantaeth sy'n cefnogi'r Gymraeg yn cydweithio.
- Datblygu pecyn o wybodaeth i ysgolion i gynorthwyo gyda'r sgwrs am

| |
|---|
| fuddion addysg ddwyieithog.<br>• Angen buddsoddi mewn rhaglen o ddatblygu sgiliau iaith athrawon- mae nifer o staff yn syrthio rhwng dwy stôl y Cwrs Sabothol /Gloywi Iaith. Mae angen darparu ar y lefel ganolradd, gan ganolbwyntio ar sgiliau addysgu cyfrwng Cymraeg. |
| **Cwestiwn 6 -** Os byddai'n rhaid ichi wneud un argymhelliad i Lywodraeth Cymru o'r holl bwyntiau rydych wedi'u nodi, beth fyddai'r argymhelliad hwnnw? |
| **Hwyluso'r broses o symud ysgolion ar hyd y continwwm iaith.**<br><br>Mae'r broses o newid categori iaith ysgolion yn heriol. |
| **Cwestiwn 7 -** A oes gennych unrhyw sylwadau neu faterion eraill yr hoffech eu codi na soniwyd amdanynt yn y cwestiynau penodol? |
| • Rhaid gweithio tuag at ledu arfer dda ac edrych y tu hwnt i Gymru o ran hybu a chynnal system addysg ddwyieithog.<br>• Rhaid hybu manteision dwyieithrwydd ar lefel cenedlaethol a chwalu'r 'myths'.<br>• Rhaid cynorthwyo ein disgyblion i ymfalchïo yn yr iaith a sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn fwy nag iaith y dosbarth.<br>• Angen i ni weithio yn well gyda phartneriaid (mentrau, Trywydd ac ati) a dysgu pa gymorth ac arbenigedd sydd ar gael<br>• Llyfrgell ar-lein o adnoddau i hyrwyddo’r Gymraeg.<br>• Safonau iaith Athrawon Newydd Gymhwyso- angen cydweithio’n nes gyda darparwyr. |